

## ❖ Y NADOLIG

**Darlleniad: Eiseia 9:2–7; 11:1–6**

Ein Tad, moliannwn Di am anfon ohonot dy unig-anedig Fab i'r byd.

‘Daeth Gwardwr gwiw i ddyinion,  
O newydd da.’

Diolchwn i Ti am newydd da mewn oes a oedd yn llwythog o newyddion drwg – dyddiau Herod Frenin. A llawenhawn wrth gofio bod y baban a anwyd gynt ym Methlehem yn Waredwr i bob oes.

Diolchwn am gymorth chwedl a chân i'n dwyn at y preseb, ond diolchwn hefyd nad chwedl ond ffaith oedd geni Iesu:

‘A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd.’

Ffaith a wna inni ryfeddu o'r newydd ar adeg Gŵyl ei eni Ef.

‘Rhyfeddu ’rwyf, O Dduw,  
dy ddyfod yn y cnawd.’

Cynorthwya ni i barhau i ryfeddu a chyhoeddi'r hyn a welsom ac a glywsom, fel y bugeiliaid gynt.

Deisyfwn arnat eneinio ein clyw i glywed carol yr angylion, a rhoddi inni'r fraint o fynd gyda'r bugeiliaid mewn dychymyg a defosiwn i weld y ‘peth hwn a wnaethpwyd’. Bydd cyflawni'r bererindod yn sicr o ddeffro'r addolwr ynom, a llanw ein genau â'th glod.

Wedi'r daith yng nghwmni'r bugeiliaid, a phlygu ac addoli wrth y crud, gad inni fynd eilwaith yng nghwmni'r doethion. Bydd angen dy ras arnom eto i ganfod ei seren Ef. Bydd angen i Ti loywi ein golygon, er mwyn inni adnabod ac addoli Crist y Brenin.

Daliwn i ryfeddu nid yn unig am i Ti ddyfod i'r byd i'n gwaredu, ond am i Ti ddewis ffordd mor annisgwyl ac mor isel a gostyngedig i ddyfod atom. Rydym mor barod i ofyn pam y preseb isel, gwael. Pam Nasareth? Ond, ‘nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i, medd yr Arglwydd.’ Prawf o'th athrylith yw llwybr y crud a'r groes a'r bedd gwag. Prawf o'th gariad angerddol yw'r Gair a wisgodd gnawd, a thrigo yn ein plith, a'r dirgelwch mawr inni yw mai trwy ei gleisiau Ef y'n hiacheir ninnau.

Erfyniwn am dy gymorth i ddathlu'r ŵyl mewn modd gweddus a theilwng, nid yn drist ond yn llawen, nid mewn maswedd ond mewn moliant, nid yn grintachlyd ond yn garedig, nid yn rhagfarnllyd ond mewn rhadlonrwydd. Rho inni ysbryd yr ŵyl, sy'n ysbryd cymod ac ewyllys da.

Gweddiwn ar ran plant ein gwlad a'n byd. Maddau fod cynifer yn cael eu cam-drin gan oedolion, yn cael eu gwrthod gan eu rhieni. O Arglwydd, yn enw'r baban Iesu, gweddiwn am fyd gwell i fabanod a phlant. Gweddiwn ar ran cartrefi Cymru a chartrefi'r byd. Boed i neges yr ŵyl dyneru calonnau, ennyn cariad ar aelwydydd, a gwneud cartrefi yn gysegrleoedd am fod dy wenau Di arnynt.

Gweddiwn ar yr ŵyl, ynghanol ein prysurdeb a'n gwleddoedd, dros dyrfa fawr nas gallwn eu rhifo a fydd yn wynebu ing a loes. Llauer ohonynt yn teimlo na feddant achos i ddathlu, na thestun diolch. Os bu farw Herod frenin, mae ei ysbryd yn rhodio'n rhydd o hyd. Amddiffyn yr ifanc heddiw rhag cleddyf pob teyrn, O Frenin nef.

Cyflwynwn i'th sylw y rhai sydd oddi cartref dros yr ŵyl ac yn hiraethu am fod gyda'u hanwyliaid. Ond gwaeth na bod oddi cartref yw bod yn ddigartref. Cofia am y rhai sydd heb gysgod a chysur aelwyd, a'r miloedd sydd heb wlad i fyw ynddi. Y ffoaduriaid sy'n heidio mewn gwerysulloedd, yn wrthodedig, yn cael eu newynu neu eu lladd. Boed i neges yr ŵyl beri i lywodraeth bwylo a thosturio wrth drueiniaid ein byd. Boed i ninnau, Nefol Dad, feithrin cariad yn lle cas, maddeuant yn lle dialedd, a thriged dy dangnefedd yn ein calonnau.

Deisyfwn hyn oll yn enw Iesu Grist, Amen.